**Jane Hutt AC/AM**
**Y Gweinidog dros y Gyllideb a Rheoli Busnes**
**Minister for Budget and Business Management**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

17 Gorffennaf 2007

Annwyl Dafydd

**RHEOLIADAU ENSEFFALOPATHÏAU SBYNGFFURF TROSGLWYDDADWY (CYMRU) (DIWYGIO) 2007**

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fod angen torri'r rheol 21 diwrnod os ydym am ddod â'r Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2007 i rym yng Nghymru yn unol â gweddill y DU. Gwnaed a chyflwynwyd y Rheoliadau hyn yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2007 a byddant yn dod i rym ar 18 Gorffennaf 2007.

Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006 ac yn sicrhau bod y trefniadau rheoli cyfredol ar ddeunydd risg penodedig (SRM) yn parhau yng Nghymru. Cynlluniwyd y trefniadau er mwyn rhwystro'r rhannau o'r anifail sy'n fwyaf tebygol o fod wedi ei heintio gan BSE rhag mynd mewn i'r gadwyn fwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae Rheoliad (CE) 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor (Rheoliadau TSE Cymunedol) yn cyflwyno'r rheolau i atal, rheoli a chael gwared ar rai Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) ac mae'n sail gyfreithiol i'r Rheoliadau TSE domestig.

Roedd Atodiad XI o'r Rheoliadau TSE Cymunedol yn cynnwys rheolaethau SRM a'r mesurau pontio a osodwyd tra'r oedd yr asesiadau risg ar y ffactorau posibl sy'n peri i BSE ymddangos a'u datblygiad dros amser yn cael eu gwneud mewn gwledydd y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd.

Yn ddiweddar, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi mabwysiadu categorïau newydd, symlach ar gyfer dosbarthu risg BSE mewn Aelod-wladwriaethau a gwledydd y tu allan i'r Gymuned; mae'r rhain yn fwy cysylltiedig â chategorïau dosbarthu risg Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd (OIE). O ganlyniad i hyn, mae Atodiad XI wedi cael ei ddiddymu a'i ailosod ag Atodiad V newydd fel y nodwyd yn Rheoliad Comisiwn (CE) Rhif. 722/2007.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 02920 82 5111
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Correspondence.Jane.Hutt@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Daeth y Rheoliad CE newydd, a gyhoeddwyd yn y Cyfnodolyn Swyddogol ar 26 Mehefin 2007, i rym ar 1 Gorffennaf 2007 ac mae'n cynnwys rheolaethau SRM a gynhwyswyd yn flaenorol yn Atodiad XI. Mae'r ddeddfwriaeth ddomestig yn cael ei diwygio ar hyn o bryd fel y bydd unrhyw drawsgyfeirio yn neddfwriaeth y Gymuned yn cael ei wneud i'r Atodiad V newydd. Rhaid i hyn ddod i rym cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Gorffennaf. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r rheolaethau SRM eu hunain.

Pe na fyddai Cymru, ynghyd â gweddill y DU, yn gweithredu'r Rheoliad hwn, byddai'n torri gofyniad y Gymuned. Yn ogystal â hyn, gallai peidio â gweithredu'r ddeddfwriaeth hon yn syth yng Nghymru leihau'r mesurau iechyd cyhoeddus mewn perthynas â BSE.

Daeth Rheoliadau tebyg i rym yn Lloegr ar 14 Gorffennaf 2007 a bwriedir eu cyflwyno yn yr Alban ar 18 Gorffennaf 2007 a Gogledd Iwerddon ar 18 Gorffennaf 2007 . Felly, mae angen torri'r rheol 21 diwrnod a dod â'r Rheoliadau i rym yng Nghymru ar 18 Gorffennaf 2007 er mwyn sicrhau cysondeb a gorfodaeth ledled y DU.

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Rheoliadau hyn. Paratowyd Memorandwm Esboniadol hefyd, sy'n cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a chyflwynwyd hwn, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a Chris Reading, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

Yn gywir

Jane